

Myfyrdod Mis Medi 2011

Sarai (Sara)

Genesis 17: 1-5, 15-18; 18:10-13



Mae Duw yn hoff o newid enwau pobl. Fe gofiwch hanes hen, hen gwpwl: Sarai'n 90 ac Abram bron yn 100 mlwydd oed. Ystyriwch ystyr yr enwau: Abram yn golygu **Hen Dad**. Rhyw fath o deitl anrhydeddus a ddaeth yn naturiol yn sgil ei flynyddoedd a'i gyfoeth. Ond, 'roedd tinc creulon yn yr enw – tad mewn enw yn unig oedd Abram. Ni fu plant erioed ar aelwyd Abram a Sarai. A Sarai – enw'n golygu **Gwawd**. Yn y cyfnod hwnnw 'roedd gwraig oedd heb genhedlu plant yn destun gwawd a dirmyg.

'Roedd gan Dduw freuddwyd fawr. Abram yn dad, a Sarai yn fam i genedl gyfan, i lu o genhedloedd. Eu disgynyddion yn ddi-rif fel y sêr. "*Cewch eich bendithio â mab*", meddai Duw wrthynt. Fe ddaw bywyd newydd o hen gnawd. Wedi clywed am syniad diweddaraf Duw fe chwarddodd Abram a Sarai, a phwy all weld bai arnynt! Fel arfer, 'roedd addewidion Duw yn swnio'n bethau

hollol amhosibl. I ddangos iddynt nad oedd dim yn amhosibl iddo, fe newidiodd enwau'r ddau. Abram yn cael ei ailenwi - Abraham. Chwarae gyda sŵn y gair, a newid ystyr, o **Hen Dad** i **Tad i Nifer**. Ailenwi Sarai - Sara, o **Gwawd** i **Tywysoges**. (Llun: Sarah supplies Abraham Hagar gan Adriaen Van der Werff (1657-1722))

Mae'r peth yn wych! Pwy ond Duw fuasai'n dewis, i fod yn dad i genedl, hen ŵr 100 mlwydd oed? Pwy ond Duw fuasai'n dweud wrth hen wraig y buasai hi, yn y man, yn beichiogi? Pwy ond Duw fuasai'n galw hen wraig, a'i phen yn isel ar ôl blynyddoedd o wawd a gwatwar, yn **Dywysoges**? Dim ond ein Duw ni! Dim ond ein Duw sydd yn mynnu ailenwi pobl, gan ddileu'r enw, neu'r hunaniaeth, sydd yn tanlinellu eu gofid a'u tristwch a rhoi enw newydd; hunaniaeth newydd iddynt, sydd yn pwysleisio eu rhinweddau a'u potensial.

Gwared fi rhag ceisio diogelwch ffydd a gwrthod ei menter.

Hagar

Genesis 16: 1-2,4; 21: 1-17

"*Beth sy'n dy boeni, Hagar?*" Wel, am gwestiwn gwirion! Fe gofiwch y stori. Nid oedd plant gan Sarai, ond 'roedd ganddi gaethferch o'r enw Hagar. Cafodd Abraham blentyn ohoni. Ganed Ismael. Gan gredu na fuasai Sarai byth yn magu plant eu hun, dechreuodd Hagar ymffrostio. Credai ei bod hi'n bwysicach na'i meistres erbyn hyn a bu Sarai yn destun sbort iddi. (Llun: Hagar leaves the House of Abraham gan Peter Paul Rubens (1577 – 1640))



Ond y tu hwnt i bob disgwyl ganed mab i Sara, Isaac, ac, ar ôl ei eni, daeth cyfle i Sara ddial ar Hagar. Y symbol Tsieineaidd am 'heddwch' yw 'tŷ ac un wraig ynddo', y symbol am 'ryfel' yw 'tŷ a dwy wraig ynddo'! Danfonodd Sara Hagar i ffwrdd! Crwydrodd Hagar ac Ismael am amser hir yn yr anialwch sych a phoeth. Bu bron yn drech na hwy. Yn wan o syched a gwres, credai Hagar fod y diwedd wedi dod i'r ddau ohonyn. Wedi clywed llefain Ismael, holodd Duw Hagar, "Beth sy'n dy boeni?"

Lle i ddechrau? Bu Sara'n greulon wrthi, bu Abraham yn wan a di-asgwrn-cefn yn gwrthod sefyll i fyny drosti, a pha werth oedd Duw yng nghanol y strach hyn i gyd? Mae cwestiwn Duw sylwch yn dal heb ei ateb. Nid beth sy'n poeni Duw, Abraham neu Sara oed y cwestiwn ond "*beth sy'n dy boeni, Hagar?*"



Yn tanlinellu holl hynt a helynt Hagar mae ei ffolineb ei hun. Pe bai hi heb drin Sara mor greulon, heb wneud hwyl am ei phen pan oedd hi'n ddi-blant, ni fuasai rhaid bod hyn i gyd wedi digwydd. A dyna wrth gwrs yw'r gwir am bob un ohonom. Mae pawb ohonom yn fedrus iawn wrth daflu'r bai ar bawb a phopeth arall. Ond yn y bôn, nyni ein hunain yw'r drafferth! (*Llun: Mind-blowing Outcast: Sarah And hagar gan Anna Theodora (gan. 1982)*)

Beth sy' dy boeni, Hagar? Beth sy'n dy boeni?
Gad i mi brofi o'r newydd, O Dad, nad yw'r

**“... Iesu'n well yn unman
Nag yng ngwaetha'r storom gref.”**

(Elfed 1860-1953; *C.Ff.* 343)